# Effaith COVID-19 ar Dwristiaeth

## Materion Allweddol

- **Refeniw**
  - Dangosodd ymchwil Croeso Cymru fod 97% o fusnesau wedi cau, a bod 99% o fusnesau wedi rhagweld effaith negyddol yn sgil y coronafeirws a'r mesurau cadw pellter (VWTB).
  - Roedd canlyniadau BBTS wedi cefnogi hyn gan ddangos bod 82% o fusnesau yn meddwl na fyddent yn gallu goroesi tan fis Medi 2020.
  - Roedd canlyniadau Twristiaeth Sir Benfro ychydig yn fwy cadarnhaol, gyda 2 ym mhob 3 yn hyderus ynghylch adfer eu busnes.
  - Dangosodd ail arolwg FOR Caerdydd, sy'n ymdrin â phob sector nid yn unig Twristiaeth, fod 41% o fusnesau mewn perygl o gau yn barhaol. O gymharu â'i arolwg cyntaf, roedd mwy o fusnesau yn poeni am lif arian a diffyg incwm.
  - Ar draws yr holl arolygon, hoeliwyd sylw ar yr heriau ariannol sy'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth, gan gynnwys gweithwyr tymhorol, dibynnu ar incwm cyfnodau prysur i dalu dyledion yr aethpwyd iddynt dros y gaeaf, a chostau uchel o ran cadw adeiladau mewn cyflwr da yn barod i'w defnyddio eto.
- **Staffio**
  - Darganfu VWTB fod 50% wedi gofyn i staff i gymryd absenoldeb <u>â thâl</u>, 35% i gymryd absenoldeb <u>di-dâl</u>, a bod 4% wedi ymddiswyddo staff.
  - Yn debyg, darganfu BBTS fod 77% o ymatebwyr wedi lleihau eu lefelau staffio rhwng 10% a 100%. O'r rhain, roedd 39% wedi lleihau eu staff 100%.
  - Nododd FOR Cardiff fod 21% o fusnesau wedi neu'n bwriadu ymddiswyddo staff.
- **Yswiriant**
  - Dywedodd 61% o ymatebwyr VWTB na fyddai eu yswiriant yn talu am golledion.
  - Soniodd llawer o ymatebion agored BBTS a PTS fod cwmnïau yswiriant yn gwrthod talu allan am hawliadau tarfu ar fusnes.

### Cymorth Ariannol gan y Llywodraeth

- Rhwystrau rhag cael cymorth ariannol
  - VWTB: roedd llawer wedi cael anawsterau wrth geisio cael mynediad i fenthyciadau banc, ac yn methu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymorth gan y Llywodraeth.
  - Roedd ymatebion PTS a BBTS yn cefnogi'r canfyddiad hwn ac roeddent yn cynnwys rhai enghreifftiau ychwanegol o fusnesau yn cwympo rhwng y bylchau cymhwystra ar gyfer cyllid, a wnaeth helpu i greu adborth ar gyfer cydweithwyr ym maes cyllid.

### Sut gall Croeso Cymru helpu

- Eglurhad ynghylch cymorth ariannol
  - Nid oedd ymatebwyr yn glir ynghylch y pecynnau ariannol oedd ar gael a'r meini prawf cymhwystra (VWTB a PTS)
- Rheolau masnachu
  - Nododd FOR Cardiff fod 15% o fusnesau wedi drysu ynghylch a ydynt yn gallu agor, ac roedd sawl ymateb digymell yn VWTB yn adlewyrchu hynny.
- Marchnata ar gyfer y dyfodol
  - Roedd llawer o fusnesau yn galw am gynllun marchnata cryf i Gymru, gyda'r disgwyliad y bydd y farchnad ddomestig yn allweddol i'r gwaith adfer (WVTB a PTS).
- Boddhad
  - Dangosodd PTS lefel isel o foddhad ymhlith y diwydiant gyda banciau a chwmnïau yswiriant y DU, ac roedd y lefel honno ychydig yn uwch gyda Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru.

Ffynonellau:

- Baromedr Twristiaeth Croeso Cymru - Cam 2 (VW TB)
- Arolwg Twristiaeth Sir Benfro (PTS)
- Arolwg Twristiaeth Bannau Brycheiniog (BB TS)
- Arolygon FOR Cardiff (FCS)

Cymru Wales

# Baromedrau Twristiaeth Croeso Cymru: arolygon Covid 19

- **Cynhaliodd Croeso Cymru ei arolwg ffôn Baromedr Twristiaeth Covid-19 cyntaf** ymhlith y diwydiant twristiaeth ar 12 a 13 Mawrth 2020, gyda 205 o fusnesau twristiaeth yn ymwneud â lletyau â gwasanaeth, hunanarlwyo, carafanau a safleoedd gwersylla, hosteli, atyniadau, darparu gweithgareddau, bwytai, tafarndai a chaffis. Cynhaliwyd yr ail gam rhwng 26 a 31 Mawrth gyda 402 o fusnesau.
- Dangosodd y cam cyntaf ychydig o effaith, ond nid oedd y sefyllfa wedi effeithio ar y rhan fwyaf o fusnesau eto. Dywedodd dau draean (67%) o fusnesau twristiaeth Cymru a gymerodd ran nad oeddent hyd yn hyn wedi profi unrhyw effaith yn sgil COVID-19, neu ei bod yn rhy gynnar i ddweud.
- Fel rhan o'r ail gam, gofynnwyd yn bennaf ynghylch staffio a mynediad i gyllid. Roedd 86% wedi profi rhywfaint o effaith oherwydd staff megis absenoldeb â thâl/di-dâl a diswyddiadau. Dangosodd yr ymchwil ansicrwydd a dryswch ynghylch y mynediad i gymorth ariannol posibl gan y llywodraeth gyda llawer o fusnesau yn ansicr ynghylch a fyddent yn gymwys.
- Mae bron (96%) o fusnesau yn disgwyl i effaith COVID-19 yn y dyfodol i fod yn 'arwyddocaol o negyddol'.
- Nododd busnesau eu bod yn cymryd camau i liniaru effeithiau gan gynnwys lleihau costau, trosglwyddo yn hytrach na chanslo archebion, darparu gwasanaethau amgen ee gwasanaeth cludfwyd.
- Dim ond 3% o fusnesau a oedd yn meddwl y byddai eu hyswiriant yn talu allan am 'ychydig' neu'r 'rhan fwyaf' o'u colledion (nid oedd neb wedi dweud y byddai eu colledion i gyd yn cael eu talu). Dywedodd y mwyafrif (61%) na fyddai eu hyswiriant yn talu allan o gwbl, ac roedd y traean oedd yn weddill yn ansicr.

**Mae Croeso Cymru yn rhedeg fersiwn ar-lein o'r Baromedr ar hyn o bryd,** a lansiwyd ar 26 Mawrth i gynnig cyfle i fusnesau nad oedd ar banel y Baromedr i roi adborth.

- Mae ymatebion i'r arolwg ar-lein yn dangos canlyniadau sy'n gyson ar y cyfan â'r arolwg ffôn, ynghyd â rhai mewnwelediadau ychwanegol:
- Awgrymwyd y gall rhai mesurau goroesi achosi niwed hirdymor yn y diwydiant: oedi talu cyflenwyr, a busnesau ddim yn buddsoddi yn eu cynnyrch.
- Roedd rhai yn pryderu y byddai annog ymwelwyr yn ôl i Gymru pan fydd yn ddiogel yn fwy heriol ar ôl eu darbwyllo i beidio â theithio yma yn y byrdymor.

Gallwch gymryd rhan yn ein harolwg yma:
http://www.walesbarometer2020.co.uk/
http://www.baromedrcymru2020.co.uk/

Lansiwyd Cam 3 o'r arolwg ffôn ar 22 Ebrill a bydd yn cynnwys 800 o fusnesau. Mae arolwg ar-lein cyfatebol hefyd yn cael ei gynnal.

**Adroddiadau wedi'u cyhoeddi:**
Cam 1: https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-covid-19-cam-1-2020-html
Cam 2: https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-0

Cymru Wales

## Arolwg Twristiaeth Bannau Brycheiniog

- Cynhaliwyd yr arolwg ymhlith gweithredwyr twristiaeth gan Twristiaeth Bannau Brycheiniog gyda 525 o ymatebion yn dod i law yn ystod yr wythnosau cyn 3 Ebrill 2020.
- Roedd 82% yn meddwl na fyddai eu busnes yn gallu goroesi tan fis Medi 2020, ac roedd 86% yn meddwl na fyddai eu busnes yn goroesi tan y Pasg 2021.
- Roedd 77% o ymatebwyr wedi'u gorfodi i leihau eu lefelau staffio rhwng 10% - 100%. O'r rhain roedd 39% ohonynt wedi lleihau eu staff 100%.
- Roedd busnesau yn aros am eglurhad ynghylch meini prawf cymorth grant Llywodraeth Cymru, ac roedd sawl busnes yn poeni am y ffaith nad oedd eu cwmnïau yswiriant yn fodlon talu yswiriant tarfu ar fusnes.

**Adroddiad wedi'i gyhoeddi:**

https://www.facebook.com/breconbeaconstourism/ (wedi'i bostio ar 6 Ebrill am 7.14pm)

## Mae FOR Cardiff yn rhedeg arolwg wythnosol ar yr effaith ar fusnesau (pob sector – nid yn unig Twristiaeth, Caerdydd yn unig)

**Datganiad i'r wasg** (wedi'i bostio 24 Mawrth, n=149):
https://www.forcardiff.com/53-of-cardiff-businesses-at-risk-of-permanent-closure-due-to-covid-19/

- Mae 53% o fusnesau Caerdydd mewn perygl o gau'n barhaol oherwydd COVID-19.
- Roedd 21% o fusnesau eisoes wedi / yn bwriadu diswyddo staff, ac roedd 51% yn pryderu am y posibilrwydd o orfod gwneud hynny.

**Datganiad i'r wasg** (wedi'i bostio 30 Mawrth):
https://www.forcardiff.com/support-for-cardiff-businesses-could-mean-fewer-closures/

- Roedd nifer y busnesau a oedd yn gofidio am gau'n barhaol oherwydd COVID-19 wedi lleihau i 41%.
- Mae 12% yn fwy o berchnogion busnes yn pryderu am lif arian a diffyg incwm, sy'n dangos bod dal ffordd i fynd gan fusnesau cyn bod y teimladau hynny yn diflannu yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar ynghylch cymorth ariannol.

Roedd llawer wedi mynegi mwy a mwy o rwystredigaeth am y diffyg eglurder ynghylch y cymorth arainnol a'r canllawiau a roddir i'r cyhoedd ar gyfyngiadau. Roedd 15% yn ansicr ynghylch y ffaith a ddylent fod ar agor ai peidio.

## Arolwg Twristiaeth Sir Benfro

- Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ymhlith gweithredwyr twristiaeth gan Twristiaeth Sir Benfro rhwng 26 Mawrth i 3 Ebrill ac roedd yn cynnwys 98 o ymatebion, ac roedd 90 ohonynt yn aelodau o Twristiaeth Sir Benfro.
- Roedd 3 ym mhob 10 yn Hyderus neu'n Hyderus Iawn y bydd eu busnes yn adfer, ac roedd traean pellach rhywfaint yn hyderus. Dim ond 6% oedd yn Ansicr neu'n Ansicr iawn.
- Er bod tua tri chwarter yn Fodlon Iawn neu'n Fodlon â Twristiaeth Sir Benfro, roedd 4 ym mhob 10 yn teimlo'r un fath am Croeso Cymru, Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru – yn debyg i'r lefelau boddhad ar gyfer Llywodraeth y DU. Roedd pob un ohonynt yn uwch na'r lefelau boddhad ar gyfer Banciau a Chwmnïau Yswiriant y DU (tua 15% a 0% yn y drefn honno).
- Roedd busnesau hefyd wedi rhoi adborth ar heriau a chyllid/cymorth penodol.

Cymru Wales